O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 337 (Cy. 54)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Grove Park i Gyfnewidfa Caerllion, Casnewydd) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau) 2012

Wedi'i wneud	*9 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*20 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") a Thraffordd Llundain – De Cymru (M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Chwefror 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Grove Park i Gyfnewidfa Caerllion, Casnewydd) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw hyd cyfan y ffordd ymuno tua'r